

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymdeithas Botwnnog a gynhaliwyd 14eg Mai, 2018 yn Neuadd Sarn, Pwllheli o 7.30 y.h. hyd 7.50 y.h.

Presennol: Y Cyngorydd Carys E. Williams (Cadeiryddes)
Y Cyngorydd Glenys Williams (Is-Gadeiryddes)
Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones,
Ifor Owen, Glyn Roberts, Michael Strain, Siôn Williams

1. ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2018/19

Penderfynwyd ethol yr Is-Gadeiryddes, Y Cyngorydd Glenys Williams, Ward Bryncroes yn Gadeiryddes am y flwyddyn 2018/19.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2018/19

Penderfynwyd ethol Y Cyngorydd Glyn Roberts, Ward Botwnnog, yn Gadeirydd am y flwyddyn 2018/19.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd 15fed Mai, 2017.

4. CYFLWYNO ADRODDIADAU

(a) Cadeiryddes y flwyddyn 2017/18

Diolchodd y Gadeiryddes, Y Cyngorydd Carys E. Williams - copi o'r adroddiad yn amgaaedig, atodiad '1'

(b) Y Clarc

Yr un modd diolchodd y Clarc am y gefnogaeth dderbyniodd gan y Gadeiryddes a'r aelodau yn ystod y flwyddyn a dywedodd ei bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd ar gael bob amser - ni fyddai'n bosibl gwneud y gwaith heb hyn.

(c) Y Cyngorydd Sirol

Cyflwynodd Y Cyngorydd Gareth Williams, cynrychiolydd Ward Botwnnog ar Gyngor Gwynedd, fraslun o'r gweithgareddau yn ystod ei flwyddyn gyntaf fel Cyngorydd Sir.

(ch) Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog

Adroddiad Y Cynghorydd Carys H. Evans, cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog.

Copi'n amgaeedig.

'2'.

**5. MANTOLEN ARIANNOL Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH, 2018**

MANTOLEN ARIANNOL AM Y FLWYDDYN 2017/18

Yn y Banc 1af Ebrill, 2017	6,995.45
Derbyniadau	<u>5,777.32</u>
	<u>12,772.7</u>
	7

Tynner

Taliadau	<u>6,089.09</u>
Sieciau bellach wedi eu cyflwyno 493,494	-39.00
Ychwaneger siec heb ei chyflwyno 200624	75.00

£6,719.6

Yn y banc 1af Ebrill, 2018

8

MANTOLEN Y FYNWENT AM 2017/18

Yn y banc 1af Ebrill, 2016	£1,286.14
Cofrestru, lle bedd a chroes x 2	275.00
	£1,561.14

Tynner

J.A. Pozzi (barbio) siec 100036	£510.00
TAW ar anfoneb J.A. Pozzi	£102.00

Yn y banc 1af Ebrill, 2018

£949.14

6. CYNRYCHIOLWYR

Penderfynwyd ethol y rhai a ganlyn i wasanaethu ar:

Is-bwyllgor y Fynwent - Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ynghyd a Chadeirydd y flwyddyn yn rhinwedd ei swydd.

Is-bwyllgor Cynllunio - Cadeirydd y Cyngor ynghyd ag aelodau'r Ward lle bo'r cais.
Un Llais Cymru - Y Cyngorwyr David Brunelli ag Elin Hughes.